Scripture Union

LLEWYRCHWCH EICH GOLEUNI

ARFOGI POBL IFANC I RANNU EU FFYDD GYDA'U CYFOEDION

RHIFYN CALAN GAEAF

www.scriptureunion.org.uk

Rhagymadrodd

Yn Scripture Union, credwn y dylai pob person ifanc gael y cyfle i ddarganfod Iesu. Nid yw llawer o bobl ifanc yn dod o gefndir eglwysig, felly rydym ni'n danbaid dros rannu'r newyddion da am Iesu y tu hwnt i'r eglwys, mewn ffyrdd sy'n gyffrous ac sy'n ddiwylliannol berthnasol. Wrth wneud hyn, rhaid inni gydnabod y cyfle gwych sydd i'w gael gyda'r rhai sy'n treulio amser y tu allan i'r eglwys gyda phlant a phobl ifanc – sef plant a phobl ifanc eraill. Mae'r dull cymar wrth gymar yn allweddol wrth gyrraedd pobl ifanc yn union ble maen nhw. Mae *Revealing Jesus* (y canllaw i'n fframwaith cenhadol Datgelu Iesu) yn datgan 'caiff Cristnogion ifanc yn bennaf eu siapio gan eu cyfoedion...' (*Revealing Jesus*, tudalen 52). Mae Arweinwyr ieuenctid a Thywyswyr Ffydd yn chwarae rhan bwysig yn nhwf a datblygiad ysbrydol pobl ifanc yn eu cymuned. Fodd bynnag, ni ellir gorbrisio'r rhan ddiymwad y mae cyfoedion yn ei chwarae ym mywyd person ifanc.

Beth yw Llewyrchwch Eich Goleuni?

Mae *Llewyrchwch Eich Goleuni* yn archwilio pwysigrwydd y dull cymar wrth gymar – pobl ifanc yn cyrraedd eu cyfoedion gyda'r newyddion da am Iesu. Mae'n eich darparu chi, fel arweinydd ieuenctid neu Dywysydd Ffydd, â ffyrdd ymarferol i archwilio'r dull hwn gyda phobl ifanc, yn annibynnol neu mewn grŵp, gan gynnwys rhai pethau iddynt gymryd i ffwrdd gyda nhw. Mae'n defnyddio mewnwelediad ac ysbrydoliaeth o'r adroddiad Influencers: peer evangelism among young people in the UK. Mae'r adroddiad yn brosiect partneriaeth, gyda'r nod o ddeall sut mae pobl ifanc 13 i 18 oed wedi eu dylanwadu gan gyfoedion yn eu taith tuag at ddod yn Gristion, a sut maen nhw, yn eu tro, yn dylanwadu ar eu cyfoedion hwythau.

Mae'r Arloeswr Cynnwys Esther Calvert-Jordan yn rhannu straeon personol am gael ei dylanwadu gan ei chyfoedion ar ei thaith ffydd, am rannu ei ffydd newydd yn weithredol gyda'i chyfoedion ac am arfogi pobl ifanc i rannu eu ffydd. Wrth i chi deithio drwy'r adnodd hwn, byddwch yn archwilio mewnwelediadau Esther o'r adroddiad Influencers, yn myfyrio ar straeon personol ac yn cael cyfleoedd i arfogi a grymuso pobl ifanc.

Mae *Llewyrchwch Eich Goleuni* yn cynnwys deunydd fideo, wedi'i deilwra ar gyfer cyfleoedd cenhadol penodol i bobl ifanc allu ymgysylltu â'u cyfoedion ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys y fideo *Shining Your Light at Halloween*, lle mae Esther yn ei rhannu ei stori ffydd, ei phrofiadau o'r dull cymar wrth gymar a syniadau ar gyfer pobl ifanc i rannu'r newyddion da am Iesu gyda'u cyfoedion adeg Calan Gaeaf. Caiff cynnwys y fideo hwn ei gefnogi gan gynnwys ysgrifenedig sy'n rhoi arweiniad ar gyfer ei ddefnyddio'n effeithiol.

Y tu mewn i'r adnodd hwn

Adran	Disgrifiad	Tud.
O gael ei dylanwadu i ddylanwadu	Stori Esther	3
Adroddiad Influencers – myfyrio ar yr ymchwil	Myfyrdodau Esther ar yr ymchwil	5
Ysbrydoli	Gweithgareddau i archwilio'r pwnc cymar wrth gymar gyda phobl ifanc	7
Fideo *Shining Your Light at Halloween*	Sut i ddefnyddio'r fideo	10
Taflen ymateb	Taflen ymateb i bobl ifanc	12
Beth nesaf?	Sut i gefnogi pobl ifanc wrth rannu'r newyddion da am Iesu	13
Cwestiynau Cyffredin i bobl ifanc	Cwestiynau a ofynir yn aml i bobl ifanc yn rhannu'r newyddion da am Iesu	14

Esther Calvert-Jordan

Mae Esther yn Arloeswr Cynnwys i Scripture Union, gydag angerdd dwfn dros arfogi a grymuso pobl ifanc i gyrraedd eu byd gyda'r newyddion da am Iesu. Nid yw Esther yn dod o gefndir eglwysig ac mae hi wedi gweld yn bersonol effaith cyfoedion ar ffurfiant ffydd. Mae ganddi ddeng mlynedd o brofiad o arfogi pobl ifanc ar gyfer efengylu gyda'u cyfoedion.

O GAEL EI DYLANWADU I DDYLANWADU– STORI ESTHER

Ym mis Mai 2011, pan oeddwn yn 19 oed, newidiodd fy myd am byth. Doeddwn i ddim wedi tyfu i fyny yn yr eglwys ac wedi labelu fy hun yn agnostig, ond cefais gyfarfyddiad â'r Ysbryd Glan a drawsnewidiodd yn llwyr yr hyn yr oeddwn i'n tybio fy mod yn ei wybod am Gristnogaeth. Roeddwn i'n arfer meddwl mai'r unig bobl oedd yn credu yn Iesu oedd y rhai a gafodd eu magu felly gan eu rhieni. Wel, wrth gwrs, roeddwn i'n anghywir ac fe ddes yn Gristion mewn noson nad anghofiaf byth, pan brofais bresenoldeb gwirioneddol Duw a'i gariad dwfn a phersonol tuag ataf.

Yn arwain at y noson honno, cafodd fy ffrindiau effaith enfawr ar fy nhaith ffydd. Roedd fy ffrindiau agosaf yn Gristnogion a byddent yn siarad yn achlysurol am eu ffydd gyda mi, yn rhannu straeon am bethau roeddent wedi gweld Duw yn ei wneud yn eu bywydau. Fe wnaeth rhai sgyrsiau sefyll allan i mi a chawsant effaith sylweddol ar fy nhaith ffydd yn y dyddiau i ddod...

'Byddaf yn gweddïo drosot.'

Cofiaf yn fyw un achlysur pan wnaeth un o fy ffrindiau fy ngwahodd i ddod i'r eglwys efo hi. Rwyf yn cofio'r teimlad yn fy nghalon fy mod i eisiau mynd, ond rhywsut mi gefais fy hun yn dweud na – roedd gennyf amheuon o hyd. Cyffyrddodd ei hymateb fy nghalon. Yn syml dywedodd, 'Iawn, byddaf yn gweddïo drosot'. Atebais, 'Diolch' ac roeddwn i'n ei olygu o ddyfnder fy nghalon. Rwy'n cofio cerdded adref yn meddwl pa mor braf oedd cael fy ngwahodd a'i bod yn gweddio drosof. Ni dderbyniais ei gwahoddiad ond roedd rhywbeth wedi dechrau cyniwair y tu mewn i mi.

'Cofia, dwyt ti byth ar dy ben dy hun.'

Dro arall, roeddwn i ar y ffôn, yn siarad â ffrind arall am rai pethau yr oeddwn yn mynd trwyddynt oedd yn fy ypsetio. Yng nghanol y sgwrs, dywedodd yn syml, 'Jyst cofia, dwyt ti byth ar dy ben dy hun'. Gan gofio'r sgyrsiau a gawsom am yr Arglwydd o'r blaen, roeddwn i'n gwybod nad oedd yn dweud wrthyf ei fod e yno i mi, roedd yn dweud wrthyf fod Duw yno. Er yn ddwfn y tu mewn i mi, roeddwn i am iddo fod yn wir, wnes i ddim ei dderbyn ar unwaith. Ond fe wnaeth y geiriau hynny atseinio yn fy nghalon am nifer o ddyddiau i ddod.

'Roedd yn bwysig iawn fod gen i ffrind i fynd gyda mi.'

Aeth peth amser heibio ac fe wnes rai ffrindiau newydd pan ddechreuais yn y brifysgol. Yn ddiddorol, roedd gen i dri chyd-letywr a oedd yn Gristnogion. Fe wnaeth y profiadau a gefais gyda fy ffrindiau yn yr ysgol uwchradd, ac yn ddiau eu gweddiau o eiriolaeth drosof fi, olygu fy mod wedi dod i'r brifysgol gydag awydd i wybod y gwirionedd am Dduw. Cofrestrais ar gyfer yr holl gymdeithasau Cristnogol ar y campws a chymerais ychydig o daflenni a deunydd defosiynol adref gyda mi. Rwy'n cofio dangos taflen eglwys i ffrind a gofyn iddi ddod gyda mi. Doedd hi ddim eisiau dod, a doeddwn innau ddim eisiau mynd ar fy mhen fy hun, felly gadewais y mater. I mi, roedd yn bwysig iawn fod gen i ffrind i fynd gyda mi.

Fisoedd yn ddiweddarach, clywais ei bod hi wedi dechrau mynd i grŵp Cristnogol, felly dywedais wrthi y byddwn yn mynd gyda hi. Fel y digwyddodd hi, hwn oedd yr un grŵp yr oeddwn wedi ceisio ei gwahodd iddo! I dorri stori hir yn fyr, yr eglwys honno ar y campws oedd y man lle des i'n Gristion a chafodd fy mywyd ei newid am byth.

'Roeddwn i eisiau dweud wrth y byd am Iesu!'

Ar ôl dod yn Gristion, roeddwn i eisiau dweud wrth y byd am Iesu - a dw i'n dal i wneud hynny heddiw! Roeddwn i'n teimlo fy mod wedi darganfod y gwirionedd mwyaf rhyfeddol yn y bydysawd, ac roedd angen i bawb glywed amdano. Fe ddechreuais ddweud wrth fyfyrwyr eraill am Iesu ar unwaith. Trefnais ddigwyddiadau a gwasanaethau ar y campws, fel y gallai fy nghyfoedion ddod i brofi'r un oedd wedi newid fy mywyd am byth. Gwelais lawer o fyfyrwyr yn dod yn Gristnogion tra roeddwn yn y brifysgol. Ers hynny, rydw i wedi treulio deng mlynedd yn arfogi ac yn grymuso myfyrwyr i rannu eu ffydd gyda'u cyfoedion ac i arwain eglwysi campws. Rwy'n rhyfeddu, bob dydd, pa mor angerddol ac ymroddedig ydyn nhw dros rannu'r newyddion da am Iesu.

Ychydig o bwyntiau allweddol o fy stori

Rwy'n rhannu fy stori nid yn unig oherwydd fy mod yn teimlo'n gyffrous am y peth, ond am fy mod am ddangos i chi werth a phwysigrwydd efengylu rhwng cyfoedion, ac arfogi pobl ifanc i rannu eu ffydd gyda'u byd. Dyma ychydig o bwyntiau allweddol o'r stori a rennais gyda chi:

Cafodd fy ffrindiau ysgol ddylanwad mawr ar fy nhaith ffydd. Oni bai am y ffordd y bu iddynt rannu eu ffydd â mi a gweddïo drosof, wn i ddim a fyddwn i erioed wedi mynd i'r brifysgol gyda'r awydd i wybod mwy am Gristnogaeth.

Pan oeddwn i eisiau archwilio Cristnogaeth gyntaf, roedd peidio â chael rhywun o'r un oed i deithio gyda mi yn rhwystr. Fe wnaeth y ffaith nad oedd fy ffrind eisiau dod gyda mi i'r eglwys ddifetha fy awydd i fod yno.

Pan wnaeth fy ffrind archwilio Cristnogaeth, fe wnaeth i mi eisiau gwneud yr un peth. Roedd yn teimlo'n ddiogel ac yn fwy cyfforddus cael rhywun y gallwn uniaethu â nhw, oedd hefyd ar daith yn eu ffydd.

Pan ddes i'n Gristion, roeddwn i eisiau dweud wrth y byd. Po fwyaf y dysgais am Iesu, po fwyaf roeddwn i eisiau dweud wrth y byd amdano. Roedd hyn yn rhan naturiol o fy nhaith ffydd a disgyblaeth barhaus.

Fel gweinidog pobl ifanc, gwelaf bobl ifanc a myfyrwyr yn cyrraedd eu cyfoedion gyda'r newyddion da am Iesu bob dydd. Nid yw pobl ifanc yn gynhenid yn amharod i rannu eu ffydd – maen nhw eisiau rhannu ond angen cefnogaeth ac anogaeth i wneud hynny.

ADRODDIAD INFLUENCERS – MYFYRIO AR YR YMCHWIL

Mae'r adran hon o'r adnodd yn eich gwahodd i fyfyrio ar rai o'r penawdau o'r adroddiad Influencers, y gellir ei ganfod ar wefan Scripture Union. Wrth i chi fyfyrio ar y cwestiynau, efallai y byddwch am ysgrifennu eich atebion, eu trafod gyda ffrind neu gyd-arweinydd ieuenctid neu Dywysydd Ffydd, neu fyfyrio mewn unrhyw ffordd arall sy'n ddefnyddiol i chi.

Dywedodd 38% o bobl ifanc Cristnogol a holwyd fod Cristnogion eraill o'r un oed yn 'ddylanwad mawr' arnynt wrth ddod yn Gristion, tra bod 39% yn dweud iddynt gael 'ychydig o ddylanwad' arnynt.

- Ym mha ffyrdd y mae cyfoedion Cristnogol yn effeithio ar ddatblygiad ffydd pobl ifanc?
- Sut gallwn ni arfogi pobl ifanc Gristnogol yn well i rannu eu ffydd?
- Sut gallwn ni ddyfnhau effaith y dylanwad sydd gan bobl ifanc Gristnogol ar eu cyfoedion?

Roedd y rhai o gefndiroedd di-eglwys ychydig yn fwy tebygol o ddweud bod Cristnogion o'r un oed naill ai'n ddylanwad 'mawr' neu 'bach' arnynt wrth ddod yn Gristion (85%), o gymharu â'r rhai o gefndir eglwys (76%).

- I berson ifanc o gefndir di-eglwys (ddim yn perthyn i neu'n gysylltiedig ag eglwys), efallai mai cyfoedion Cristnogol o'u cwmpas yw'r unig bobl o fewn eu cylch dylanwad all rannu'r newyddion da am Iesu gyda nhw. Pa fath o ddylanwadau ydych chi'n eu gweld ar bobl ifanc?
- Sut gallai'r rhain wrth-ddweud neu dynnu sylw oddi ar Gristnogaeth?
- Roedd 76% o'r bobl ifanc a holwyd yn dod o gefndiroedd eglwys, ond yn cydnabod o hyd dylanwad cyfoedion Cristnogol ar eu ffydd. Pam ydych chi'n meddwl bod gan gyfoedion Cristnogol ddylanwad arwyddocaol o hyd ar y rhai sy'n dod o deuluoedd neu gefndiroedd Cristnogol?

Y prif ffyrdd y dywedodd pobl ifanc iddynt gael eu dylanwadu oedd cyfoedion yn eu helpu i ddatblygu eu ffydd eu hunain (56%), ffrindiau yn dweud wrthynt am eu ffydd, a chael eu gwahodd i rywbeth (51%).

- Pa rôl sydd gan bobl ifanc Gristnogol yn nhwf ysbrydol a datblygiad eu cyfoedion?
- Pa rôl allai pobl ifanc ei gael yn natblygiad ffydd hirdymor eu cyfoedion?
- Ym mha ffyrdd allech chi helpu creu cyfleoedd i bobl ifanc wahodd eu cyfoedion i ddigwyddiad?

Pan ofynnwyd iddynt sut yr oeddent yn meddwl eu bod yn dylanwadu ar gyfoedion nad ydynt yn Gristnogion, dywedodd 71% eu bod wedi dweud wrthynt am eu ffydd, gyda 41% yn dangos i ffrindiau beth yw bod yn Gristion, a 35% yn gwahodd cyfoedion i rywbeth. Mewn cyferbyniad, mae arweinwyr ieuenctid yn rhoi mwy o bwyslais ar 'wahodd', gydag 81% o arweinwyr ieuenctid yn dweud bod eu heglwys yn annog pobl ifanc i wahodd eu ffrindiau i rywbeth (81%), yna annog pobl ifanc i ddangos eu cyfoedion beth mae'n ei olygu i fod yn Gristion (58%) ac yna eu hannog i siarad â chyfoedion am ffydd (49%).

- Pam ydych chi'n meddwl bod gwahaniaeth rhwng yr hyn yr oedd

arweinwyr yn ei feddwl bod pobl ifanc yn ei wneud i ddylanwadu ar eu cyfoedion a beth oedd pobl ifanc yn ei wneud mewn gwirionedd?

- Sut allech chi ddeall yn well ymagwedd eich pobl ifanc at ddylanwadu ar eu cyfoedion a'u cefnogi wrth iddynt wneud hyn?
- Sut allech chi gefnogi ac annog eich pobl ifanc i rannu eu ffydd y tu allan i furiau'r eglwys?

Y prif rwystrau i rannu ffydd yn nhyb pobl ifanc oedd peidio gwybod atebion i gwestiynau anodd (38%) a chyfoedion ddim yn dangos diddordeb (36%).

Roedd 77% o arweinwyr ieuenctid yn gweld diffyg hyder ymhlith pobl ifanc fel rhwystr i rannu ffydd, ond dim ond 31% o bobl ifanc wnaeth nodi hyn yn her.

Roedd 65% o Gristnogion ifanc a holwyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod ganddynt yr hyder i rannu eu ffydd ag eraill, ac roedd 80% naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf yr hoffent gael mwy o hyder i rannu ffydd ag eraill.

Y prif ffyrdd yr oedd pobl ifanc eisiau cefnogaeth oedd siarad ag eraill am rannu ffydd (40%) ac i glywed am brofiadau pobl eraill o wneud hynny (39%).

- Sut allech chi helpu eich pobl ifanc i oresgyn yr ofn nad oes gan eu cyfoedion efallai ddim diddordeb mewn ffydd?
- Sut allwch chi ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc glywed straeon am eraill yn rhannu eu ffydd?
- Sut allwch chi gefnogi eich pobl ifanc wrth siarad am eu ffydd?

Dywedodd hanner (49%) y gweithwyr ieuenctid a holwyd nad oedd gan eu heglwysi unrhyw 'ddisgyblion gweithredol' o gartref nad yw'n Gristnogol, a dywedodd chwarter nad oedd gan eu heglwysi gysylltiad ag unrhyw bobl ifanc o gefndir nad yw'n Gristnogol, waeth beth fo'u lefel ymgysylltu.

Dywedodd 39% o weithwyr ieuenctid bod gweinidogaeth ieuenctid eu heglwys yn canolbwyntio 'yn unig' neu 'yn bennaf' ar gadw (helpu meithrin disgyblion ifanc yn bennaf o gymuned yr eglwys), o gymharu ag 8% sydd â'u hunig neu brif ffocws ar estyn allan.

- Ble gallwch chi adnabod eich eglwys yn yr ystadegyn hwn?
- A oes unrhyw beth sydd angen newid yn eich dull yn eich barn chi? Sut allech chi fynd ati i wneud hyn?
- Pam ydych chi'n meddwl bod lleiafrif mor fach â ffocws ar estyn allan?
- Sut gall eglwysi fod yn rhagweithiol ynghylch cyrraedd pobl ifanc nad ydynt yn dod o gefndir Cristnogol?

I gloi

Yn ystod eich myfyrdodau ar y cwestiynau hyn, efallai ichi gael gwahanol feddyliau yn dod i chi – meddyliau am eich grŵp ieuenctid, y posibiliadau, yr heriau, syniadau ac ysbrydoliaeth. Cymerwch ennyd i nodi rhai pwyntiau gweithredu ynghylch yr hyn y gallwch chi ei wneud i arfogi a grymuso eich pobl ifanc gyda'r newyddion da am Iesu yn well. Bydd yr adran nesaf yn darparu syniadau ar sut i archwilio'r thema hon gyda'ch pobl ifanc.

YSBRYDOLI – GWEITHGAREDDAU I ARCHWILIO'R PWNC CYMAR WRTH GYMAR GYDA PHOBL IFANC

Mae'r adran hon yn darparu ffyrdd o archwilio'r pwnc o efengylu cymar wrth gymar gyda phobl ifanc, wrth iddynt gymryd camau i rannu eu ffydd gyda'u cyfoedion.

Sut i ddefnyddio'r adran hon

Gallwch ddewis gwneud y gweithgareddau hyn gyda phobl ifanc yn ystod sesiwn grŵp bach rheolaidd neu ar adeg arall yr ydych wedi'i neilltuo i ddechrau archwilio'r dull cymar wrth gymar gyda'ch grŵp. Bydd y deunydd yn yr adnodd hwn yn debygol o ymestyn ar draws cyfres o sesiynau, felly peidiwch â theimlo dan bwysau i gyflawni'r cyfan mewn un. Gweithiwch ar gyflymder sy'n addas i'ch grŵp ac sy'n cyd-fynd â'r amser sydd ar gael gennych.

Myfyrio ar adroddiad Influencers – 30 munud

Cyn i chi ddechrau, sicrhewch eich bod wedi darllen yn drylwyr benawdau'r adroddiad, a chymryd amser i aros a myfyrio, gan ddefnyddio'r cwestiynau ar dudalennau 5 a 6.

Nod: cynorthwyo trafodaethau gyda phobl ifanc am rannu eu ffydd gyda'u cyfoedion ac i adnabod eu hanghenion unigol yn y maes hwn.

Bydd angen:

- padiau ysgrifennu wedi'u rhwymo a phinnau ysgrifennu
- copïau o'r adroddiad Influencers ar gyfer pob person ifanc, yn electronig ar ddyfais symudol neu wedi'u hargraffu

Gwneud y gorau o'ch trafodaethau

Bydd archwilio'r ystadegau hyn yn agor sgyrsiau gwahanol gyda'r bobl ifanc am eu profiadau eu hunain ac anghenion unigol pan ddaw i'r dull cymar wrth gymar. Anogwch hyn ac archwiliwch yn drylwyr gyda'ch grŵp, gan sicrhau eich bod yn cymryd sylw o unrhyw beth sy'n sefyll allan neu a fydd yn ddefnyddiol wrth feddwl sut i arfogi eich pobl ifanc orau. Ar gyfer pob ystadegyn cymerwch sylw o ba mor berthnasol ydyw i'ch grŵp o bobl ifanc.

Cyflwyno'r adroddiad

Cyflwynwch yr adroddiad Influencers i'r bobl ifanc, gan egluro'n gryno beth ydyw a sut y daeth i fod (gweler tudalen 2 os oes angen mwy o wybodaeth arnoch). Dywedwch wrth y grŵp yr ydych am edrych ar rai o'r prif ystadegau o'r adroddiad gyda'ch gilydd. Eglurwch y byddwch yn darparu dolen i gopi o'r adroddiad wedyn, os hoffent ei archwilio ymhellach.

Unwaith y byddwch wedi cyflwyno'r adroddiad i'r bobl ifanc, darllenwch yr ystadegau fel cwestiynau yn hytrach na datganiadau gyda'r ffigyrau. Er enghraifft, yn lle darllen 'Y prif rwystrau i rannu ffydd yn nhyb pobl ifanc oedd peidio gwybod atebion i gwestiynau anodd (38%) a chyfoedion ddim yn dangos diddordeb (36%)', gofynnwch 'Beth ydych chi'n meddwl oedd y prif rwystrau i bobl ifanc rannu eu ffydd?'

Unwaith y byddwch wedi gofyn y cwestiynau, gofynnwch i'r bobl ifanc ysgrifennu eu hatebion ar eu padiau ysgrifennu neu ar ddalennau o bapur, ynghyd â'r canran y bobl ifanc maen nhw'n meddwl rhoddodd yr atebion hynny. Os nad ydych yn defnyddio padiau ysgrifennu neu ddalennau o bapur, gallwch ofyn i'r bobl ifanc weiddi eu hatebion.

Cydnabyddwch yr holl atebion cyn dweud wrthynt yr ystadegyn go iawn o'r adroddiad. Dilynwch hyn trwy ofyn y cwestiynau isod, gan roi cyfle i drafodaeth grŵp ac adborth:

- Beth yw eich barn am yr ystadegyn – oedd o'r hyn oeddech chi'n ei ddisgwyl? Pam neu pham ddim?
- Sut ydych chi'n teimlo am yr ystadegyn – a yw'n cyd-fynd â'ch profiad eich hun?
- A ddylai'r ystadegyn hwn newid?
- Sut gall yr ystadegyn hwn newid?

Chwarae Rôl – 40 munud

Nod: i helpu'r bobl ifanc i feddwl am yr heriau o rannu'r newyddion da am Iesu a sut i'w goresgyn.

Cyflwyniad

Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i gynllunio i helpu'r bobl ifanc i edrych ar sut beth yw rhannu'r newyddion da am Iesu gyda'u cyfoedion, yr heriau efallai y byddant yn eu hwynebu a sut i'w goresgyn. Trwy chwarae rôl, gall pobl ifanc archwilio, mewn amgylchedd mwy cyfforddus, yr heriau y gallent eu hwynebu wrth rannu eu ffydd.

Rhowch wybod i'r bobl ifanc eich bod chi'n mynd i archwilio rhai o'r materion yr ydych chi wedi eu nodi yn yr adroddiad Influencers gyda'ch gilydd a, trwy chwarae rôl, sut y gallech fynd i'r afael â nhw.

Mae'r enghraifft isod yn edrych ar y mater o beidio gwybod yr ateb i gwestiynau anodd. Fodd bynnag, gallwch ddefnyddio'r dull hwn i archwilio heriau eraill a amlygwyd yn yr adroddiad Influencers, os oes rhai sy'n berthnasol i'ch grŵp.

Gwahoddwch y bobl ifanc i chwarae rôl, ochr yn ochr â chi neu arweinydd arall, sy'n dangos y mater sy'n cael ei drafod.

Archwiliwch y mater gyda'ch gilydd a meddyliwch drwy'r atebion.

Cyfrannwch syniadau, lle bo angen, a all eu helpu i feddwl trwy'r mater.

Chwarae rôl ateb cwestiynau anodd

Eglurwch wrth y bobl ifanc eich bod chi neu arweinydd arall yn mynd i chwarae rôl rhywun sy'n rhannu ei ffydd, a bydd person ifanc yn chwarae rôl rhywun sy'n gofyn cwestiwn anodd y maen nhw'n ei feddwl efallai y byddant yn dod ar eu traws. Gofynnwch am wirfoddolwr i chwarae'r rôl honno. Dywedwch wrth y grŵp y byddwch yn oedi ar adeg benodol ac yn gofyn i'r grŵp i roi cyngor ar sut y gallech fynd i'r afael â'r sefyllfa.

Ar ôl ychydig, cymerwch saib o'r chwarae rôl a gofynnwch i weddill y grŵp roi cyngor i chi sut y gallech ymateb i'r sefyllfa. Gwrandewch ar eu hawgrymiadau gan actio rhai ohonyn nhw.

Ar ôl ychydig o ryngweithio, gwahoddwch berson ifanc arall i chwarae rôl gan ofyn cwestiwn arall i chi ac ailadroddwch y broses. Unwaith y byddwch wedi gwneud hyn ychydig o weithiau, gofynnwch i un o'r bobl ifanc a fyddent yn hoffi cymryd eich lle chi a rhoi cynnig ar chwarae'r rôl. Sicrhewch nad yw hyn yn brawf i weld a ydynt yn gwybod yr ateb, ond yn gyfle i ymarfer bod yn gyfforddus mewn sefyllfa o'r fath, hyd yn

oed os nad ydyn nhw'n gwybod yr atebion. Ailadroddwch y broses o gymryd saib o'r chwarae rôl i ofyn i weddill y grŵp am eu cyfraniad ac i ddarparu eich mewnbwn eich hun lle bydd o gymorth. Isod ceir rhai ymatebion posibl i gwestiynau anodd efallai y byddwch am eu defnyddio gyda'r grŵp:

'Dyna gwestiwn gwych. Dydw i ddim yn siŵr o'r ateb ond rwy'n hapus i edrych i mewn iddo os hoffet siarad mwy amdano.'

'Rwy'n deall pam y gallai hynny fod yn rhywbeth rwyt ti'n pendroni yn ei gylch. Dw i ddim yn gwybod yr ateb ar hyn o bryd; mae cymaint o hyd i'w ddysgu am Iesu a dw i'n meddwl ei fod yn gyffrous i ddarganfod mwy amdano. Hoffet ti wneud hynny?'

Unwaith y byddwch wedi gorffen y chwarae rôl, gofynnwch i'r bobl ifanc y cwestiynau canlynol a rhoi cyfle i drafod a rhyngweithio, gan gyfrannu eich hun lle bydd o gymorth:

- I'r rhai a chwaraeodd y rhan o ateb y cwestiynau, sut beth oedd bod yn rhan o'r chwarae rôl?
- Beth ydych chi'n meddwl yw'r peth mwyaf bygythiol am gwestiwn anodd, a sut y gallem oresgyn hynny?
- Ydych chi'n meddwl bod Duw yn disgwyl i ni wybod yr ateb i bob cwestiwn cyn i ni rannu'r newyddion da am Iesu?
- Sut gallai Duw ein helpu ni ar adegau anodd yn ystod sgwrs am ein ffydd?

Archwilio ynghylch yr Ysbryd Glân – 30 munud

Bydd angen:

- Beiblau (electronig neu bapur) ar gyfer pob person ifanc

Cyflwyniad

Dywedwch wrth y bobl ifanc eich bod chi'n mynd i archwilio rhannau o'r Beibl gyda'ch gilydd, am yr Ysbryd Glân sy'n ein helpu pan fyddwn yn rhannu'r newyddion da am Iesu. Gwahoddwch nhw i archwilio'r Beibl mewn un o'r ffyrdd canlynol:

- gyda'i gilydd mewn grŵp bach, gan ddarllen y darnau fel grŵp a thrafod y cwestiynau gyda'i gilydd
- ar ben eu hunain, yn meddwl am y cwestiynau a rhoi adborth i'r grŵp wedyn
- darllen y darnau'n uchel a myfyrio arnynt fel grŵp ehangach, wrth i chi arwain y drafodaeth.

Ym mha ffordd bynnag y mae'r bobl ifanc wedi'i dewis, gwahoddwch nhw i archwilio'r darnau canlynol a myfyrio ar y cwestiynau:

Actau 1:8

- Beth ydych chi'n meddwl y mae'n ei olygu i fod yn dyst?
- Pa rôl yn eich barn chi sydd gan yr Ysbryd Glân yn ein galwad ni i fod yn dystion?

Effesiaid 6:19,20

- Pam ydych chi'n meddwl y gofynnodd Paul, yr awdur, iddynt weddïo drosto?
- Pa wahaniaeth ydych chi'n meddwl gall gweddi ei wneud wrth rannu eich ffydd?
- Ydych chi'n meddwl y gallai'r Ysbryd Glân helpu chi i fod yn fentrus ac yn ddi-ofn?

Marc 16:20

- Beth ydych chi'n meddwl yw ystyr y darn hwn?
- Beth fyddai'n ei olygu i'r Ysbryd Glân weithio gyda chi wrth i chi rannu eich ffydd?

Gorffennwch y rhan hwn trwy wahodd unrhyw gwestiynau gan y bobl ifanc am y pethau yr ydych wedi eu trafod. Atebwch y cwestiynau gyda'r grŵp, gan ganiatáu ar gyfer rhyngweithio lle bo modd.

Fideo *Shining Your Light at Halloween* – 40 munud

Bydd angen:

- Beiblau (electronig neu bapur) ar gyfer pob person ifanc
- Fideo *Shining Your Light at Halloween* ar gael yn content.scriptureunion.org.uk/resource/shining-your-light-halloween-video
- Taflen ymateb ar gyfer pob person ifanc, ar dudalen 12 yr adnodd hwn.

Cyflwyniad

Dywedwch wrth y bobl ifanc eich bod chi'n mynd i archwilio rhannau o'r Beibl gyda'ch gilydd, ynghylch bod yn oleuni, gyda Chalan Gaeaf mewn golwg. Gwahoddwch nhw i archwilio'r Beibl yn un o'r ffyrdd canlynol:

- gyda'i gilydd mewn grŵp bach, gan ddarllen y darnau fel grŵp a thrafod y cwestiynau gyda'i gilydd
- ar ben eu hunain, yn meddwl am y cwestiynau a rhoi adborth i'r grŵp wedyn
- darllen y darnau yn uchel a myfyrio arnynt fel grŵp ehangach, wrth i chi arwain y drafodaeth.

Ym mha ffordd bynnag y mae'r bobl ifanc wedi'i dewis, gwahoddwch nhw i archwilio'r darnau canlynol a myfyrio ar y cwestiynau:

Ioan 8:12

- Beth ydych chi'n meddwl oedd Iesu yn ei olygu pan ddywedodd mai ef yw goleuni'r byd?
- Pa arwyddocâd sydd i Iesu fel y goleuni yng nghyd-destun Calan Gaeaf?

Mathew 5:14–16

- Beth ydych chi'n meddwl oedd Iesu yn ei olygu pan ddywedodd mai chi yw goleuni'r byd?
- Beth fyddai'n ei olygu i fod yn oleuni'r byd adeg Calan Gaeaf?
- Ym mha ffyrdd ydych chi'n meddwl y gallwch chi lewyrchu eich goleuni?

Ar ôl rhoi amser i fyfyrio, gwahoddwch y bobl ifanc yn ôl at ei gilydd a gofynnwch am adborth ar bob un o'r darnau, gan wahodd rhai gwirfoddolwyr i rannu.

Cyflwynwch y fideo *Shining Your Light at Halloween*. Efallai y byddwch am ddefnyddio'r geiriau isod neu eich geiriau eich hun:

> *Mae Duw yn ein galw i lewyrchu fel goleuni, ac mae Calan Gaeaf yn gyfle gwych i wneud hynny. Rydyn ni'n mynd i wylio fideo gan Esther, sy'n mynd i ddweud ychydig wrthym am ei thaith ffydd, yr effaith a gafodd ei ffrindiau ar ei thaith, ei phrofiad o rannu ei ffydd gyda'i chyfoedion ac ychydig o syniadau efallai y gallem roi cynnig arnynt yn ystod y cyfle a gawn adeg Calan Gaeaf.*

Chwaraewch y fideo *Shining Your Light at Halloween* sydd ar gael o content.scriptureunion.org.uk/resource/shining-your-light-halloween-video

Unwaith y byddwch wedi gwylio'r fideo, gofynnwch i'r bobl ifanc y cwestiynau canlynol, gan roi cyfle i drafod, a chyfrannwch eich hun lle gallai fod o gymorth.

- Beth oedd eich barn chi am stori Esther?
- A oedd unrhyw beth y gallech chi uniaethu ag ef yn y stori?
- A oedd unrhyw beth wedi eich synnu yn y stori?
- Oes gennych chi unrhyw ffrindiau sydd, fel Esther, heb dyfu i fyny yn yr eglwys?
- Beth yw eich barn am y gobaith iddynt ddod i ffydd yn Iesu a rhannu'r newyddion da gyda'u byd?
- Beth yw eich barn am rannu'r newyddion da am Iesu gyda'ch cyfoedion adeg Calan Gaeaf?
- Sut ydych chi eisiau rhannu'r newyddion da am Iesu gyda'ch cyfoedion adeg Calan Gaeaf?
- Sut gallwn ni eich cefnogi i rannu'r newyddion da adeg Calan Gaeaf?

Gorffennwch y rhan hwn trwy roi i bob person ifanc daflen ymateb (ar y dudalen nesaf) a gofynnwch iddynt ei llenwi. Atgoffwch nhw eich bod ar gael i'w helpu os oes ganddynt unrhyw gwestiynau am y daflen. Eglurwch y byddan nhw'n mynd â'r taflenni i ffwrdd gyda nhw, ond eich bod chi'n hapus i sgwrsio am unrhyw beth y maent wedi'i ysgrifennu, pe byddent yn cael hyn yn ddefnyddiol.

Scripture Union

Llewyrchu Eich Goleuni adeg Calan Gaeaf

Pam fyddech chi eisiau rhannu eich ffydd adeg Calan Gaeaf?

Pa fath o bethau hoffech chi eu gwneud i rannu eich ffydd adeg Calan Gaeaf?

Pa gamau sydd angen i chi eu cymryd i wneud i hyn ddigwydd?

Sut gall eich arweinydd ieuenctid neu'ch Tywysydd Ffydd eich cefnogi i rannu eich ffydd? Pa help fydd ei angen arnoch?

Nawr rydych chi wedi meddwl beth hoffech chi ei wneud i lewyrchu eich goleuni adeg Calan Gaeaf, siaradwch â'ch arweinydd ieuenctid neu'ch Tywysydd Ffydd. Byddant yn gallu eich helpu i ddatblygu eich syniadau i ddod yn gynllun gweithredu.

Beth nesaf?

Unwaith y byddwch wedi gorffen y gwahanol weithgareddau i archwilio'r pwnc cymar wrth gymar gyda'ch grŵp, y cam nesaf yw eu cefnogi'n weithredol i rannu'r newyddion da am Iesu. Dyma rai ffyrdd y gallwch wneud hyn:

- **Darparwch y bobl ifanc â'r cwestiynau cyffredin a syniadau i rannu eu ffydd ar dudalen 14.** Mae'r daflen tair tudalen yn cynnwys syniadau gwahanol ar sut y gall pobl ifanc ddefnyddio'r deunydd a ddarperir. Trafodwch gyda'ch grŵp sut y byddai'n well ganddynt ddefnyddio'r adnodd hwn a darparwch unrhyw gefnogaeth a ofynnir amdano.
- **Gwnewch yn siŵr bod eich pobl ifanc yn gwybod eich bod yn fodlon ac ar gael i ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt.** Siaradwch am unrhyw un o'u profiadau o rannu ffydd, os hoffent wneud hynny.
- **Holwch nhw yn rheolaidd am eu profiadau o rannu ffydd.** Gallai fod mor syml â holi cwestiynau yn ystod eich cyfarfodydd rheolaidd gyda nhw, er enghraifft: 'Pryd oedd y tro diwethaf i chi rannu eich ffydd gyda rhywun?' 'Beth aeth yn dda?' 'Beth oedd yn heriol?' 'Os nad ydych wedi rhannu eich ffydd yn ddiweddar, beth sydd wedi teimlo fel rhwystr?' 'Sut gallaf eich cefnogi gyda hynny?
- **Sicrhewch eu bod yn ymwybodol bod eich eglwys neu grŵp ieuenctid yn fan lle gallant bob amser wahodd eu ffrindiau.** Anogwch nhw ar ddiwedd pob cyfarfod i ystyried gwahodd rhywun i'r un nesaf.
- **Anogwch a dathlwch straeon o rannu ffydd ymhlith eich pobl ifanc.** Os bydd person ifanc yn dweud wrthych eu bod wedi rhannu eu ffydd gyda rhywun, gofynnwch a fyddent yn fodlon rhannu eu stori gyda'r grŵp. Bydd hyn yn eu hannog nhw a gall hefyd ysbrydoli eraill.
- **Darganfyddwch a hoffai eich pobl ifanc gael digwyddiad y gallant wahodd eu cyfeillion iddo.** Trafodwch yr hyn fyddan nhw ei angen, cynlluniwch gyda nhw a theithiwch gyda nhw wrth gynnal y digwyddiad. Caniatewch ofod i annibyniaeth, gan sicrhau y cedwir at ganllawiau diogelu eich eglwys.
- **Os hoffai eich pobl ifanc gael rhywbeth y gallant ei roi i'w cyfoedion i gychwyn sgwrs, trafodwch gyda nhw beth allai hyn fod.** Edrychwch i mewn i ddarparu'r pethau hynny ar eu cyfer, gan hefyd eu hannog i godi arian neu gyfrannu, lle bo modd.
- **Ar wahân i'r digwyddiadau yr ydych yn cefnogi pobl ifanc eu harwain, efallai y bydd eich grŵp hefyd yn gwerthfawrogi digwyddiad dan arweiniad oedolion iddynt wahodd eu ffrindiau iddo.** Trafodwch hyn gyda nhw a gwnewch yn siŵr eu bod yn cymryd rhan mewn rhyw fodd, hyd yn oed os ydych chi'n ei arwain.
- **Cofiwch y gallant wynebu erledigaeth oherwydd eu bod yn rhannu eu ffydd.** Darparwch gyfleoedd yn gyson i bobl ifanc rannu'r pethau hyn gyda chi. Byddwch bob amser ar gael i'w hannog, eu cryfhau ac ymyrryd, os yw'n briodol ac yn unol âch canllawiau diogelu.

Esther Calvert-Jordan

Mae Esther yn Arloeswr Cynnwys i Scripture Union, gydag angerdd dwfn dros arfogi a grymuso pobl ifanc i gyrraedd eu byd gyda'r newyddion da am Iesu. Nid yw Esther yn dod o gefndir eglwysig ac mae hi wedi gweld yn bersonol effaith cyfoedion ar ffurfiant ffydd. Mae ganddi ddeng mlynedd o brofiad o arfogi pobl ifanc ar gyfer efengylu gyda'u cyfoedion.

CWESTIYNAU CYFFREDIN I BOBL IFANC SY'N RHANNU'R NEWYDDION DA AM IESU

'Fy enw i yw Esther, rwy'n Arloeswr Cynnwys i Scripture Union ac rwyf ar dân dros Iesu, gan ddweud wrth y byd amdano a helpu eraill i wneud yr un peth. Dydw i ddim dod o gefndir eglwysig, ac fe ddes yn Gristion yn fy arddegau trwy gyfarfyddiad anghyffredin â'r Ysbryd Glân. Dylanwadwyd yn fawr ar fy nhaith gan fy nghyfoedion, ac ers dod yn Gristion rwyf wedi treulio deng mlynedd yn arfogi ac yn grymuso pobl ifanc i gyrraedd eu cyfoedion gyda'r newyddion da am Iesu. Rydw i wir yn credu os bydd pob un ohonom yn cyrraedd ein byd unigol ein hunain gyda'r newyddion gwych hyn, gallwn, gyda'n gilydd, newid y byd. Rwy'n gweddïo y bydd y cwestiynau ac atebion a'r syniadau hyn yn eich helpu i fod yn eofn i rannu'r newyddion da am Iesu gyda'ch byd.'

Cyflwyniad

Ceir isod rhai cwestiynau cyffredin am rannu eich ffydd ynghyd â rhai darnau cefnogol o'r Beibl a ddylai eich helpu i ddeall mwy am y cwestiwn a ofynnwyd:

Cwestiwn: Beth os nad oes gan fy ffrindiau ddiddordeb?

Darnau o'r Beibl: Actau 5:12–42; Mathew 5:10-12; Rhufeiniaid 1:16

Syniadau Esther: 'Wel, yn gyntaf oll, nid yw hynny'n broblem o gwbl! Nid ein swydd ni yw chwilio am bobl a allai fod â diddordeb a rhannu gyda nhw yn unig, ond i roi'r cyfle i bawb a gadael iddynt wneud eu penderfyniad eu hunain.

'Rhywbeth rwy'n ei ddweud yn aml wrth fy mhobl ifanc yw "Y peth gwaethaf allai ddigwydd yw y bydd pobl yn dweud na neu'n eich anwybyddu chi – y peth gorau allai ddigwydd yw y byddan nhw'n ymateb yn gadarnhaol ac yn dechrau eu perthynas eu hunain ag Iesu". Naill ffordd neu'r llall, mae'n werth cymryd y cam eofn hwnnw. Byddwch efallai'n poeni sut y gallai effeithio ar eich perthynas bersonol â nhw, ond ystyriwch hyn – os oedd gennych siec am filiwn o bunnoedd i'w rhoi i rywun ond maen nhw'n ei wrthod, efallai y byddwch yn drist drostynt ond ni fyddech yn teimlo'n ddrwg yn bersonol achos rydych chi'n gwybod gwerth yr hyn oeddech chi'n ei gynnig. Mae Iesu, a'r bywyd mae'n ei gynnig i ni, yn werth llawer mwy na miliwn o bunnoedd! Pan fyddwch chi'n ymwybodol o hyn, ni fyddwch chi'n ei weld fel gwrthodiad personol pan na fydd gan rywun ddiddordeb. Byddwch yn parhau i rannu gyda'ch byd a gweddïo y byddan nhw un diwrnod hefyd yn dod i wybod gwerth Iesu, yn union fel gwnaethoch chi.

'Os yw ffrind yn teimlo'n wahanol am eich perthynas â nhw oherwydd i chi rannu eich ffydd, peidiwch â gadael i hyn eich digalonni. Yn y Beibl nid oes addewid y bydd pawb yn gweld y newyddion da fel newyddion da. Yn wir, gwelwn y gallai pobl ymateb yn negyddol i ni oherwydd ein ffydd. Fodd bynnag, pan fyddwn ni'n meddwl am yr hyn a wnaeth Iesu, a'r pwysigrwydd bod y byd yn gwybod amdano, fe allwn ni ystyried ei fod yn werth chweil.

'Heddiw, rydyn ni'n gwybod mewn llawer o wledydd gallai siarad am Iesu gostio i Gristion ei fywyd. Eto i gyd, yn y mannau hynny, maent yn dal i gymryd y risg i rannu'r newyddion da am Iesu. Yn y Deyrnas Unedig, nid yw hyn yn debygol o fod yn

wir i ni, ond beth bynnag y mae'n costio i ni – efallai anesmwythyd neu anhwylustod – mae o werth chweil. Os ydych chi'n profi heriau yn y ffordd y mae pobl yn ymateb i'ch ffydd, siaradwch â'ch arweinydd ieuenctid neu'ch Tywysydd Ffydd a all eich cefnogi.'

Cwestiwn: Beth os ydyn nhw'n gofyn cwestiwn nad ydw i'n gwybod yr ateb iddo?

Darnau o'r Beibl: Effesiaid 6:19,20; Marc 16:20; Marc 13:11

Syniadau Esther: 'Nid yw rhannu'r newyddion da am Iesu yn ymwneud â gwybod yr ateb i bob cwestiwn. Mae'n ymwneud â rhannu beth ydych chi'n ei wybod am Iesu a phwy mae e wedi bod yn eich bywyd. Ie, efallai y bydd rhywun yn gofyn cwestiwn nad ydych chi'n gwybod yr ateb iddo ond nid yw hynny'n ddim i'w ofni. Gallwch ddweud bob amser y byddwch chi'n ceisio darganfod yr ateb iddynt, ac yna ewch a gwnewch hynny.

'Mae'n bwysig gwybod pan ddaw hi i rannu'r newyddion da am Iesu, nad ydych chi ar eich pen eich hun. Mae'r Ysbryd Glân gyda chi, yn eich helpu i wybod beth i'w ddweud. Ymddiriedwch yn yr Ysbryd Glân i roi'r geiriau cywir yn eich genau, ar yr amser iawn, i'r person iawn.'

Cwestiwn: Rwyf am rannu'r newyddion da am Iesu ond rwy'n swil, felly sut alla i wneud hynny?

Darnau o'r Beibl: Actau 1:8; 2 Timotheus 1:7,8

Syniadau Esther: 'Mae'n iawn os nad ydych chi'n naturiol yn dueddol i siarad â phobl. Nid yw Duw yn chwilio am bobl sy'n gwybod sut i siarad yn dda iawn neu sy'n siaradwyr cyhoeddus naturiol. Yr hyn y mae'n chwilio amdano yw rhywun parod. Os ydych yn gwneud eich hun ar gael iddo, bydd yn eich defnyddio chi i rannu'r newyddion da am Iesu yn eich ffordd unigryw eich hun. Y peth pwysig yw sylweddoli ei fod ef yno yn eich helpu wrth i chi siarad, gan roi i chi'r geiriau cywir a'r hyfdra a'r dewrder i'w dweud. Gallwch chi ymddiried ynddo.'

Cwestiwn: Beth yw'r pethau pwysicaf i'w rhannu pan ddaw at y newyddion da am Iesu?

Darnau o'r Beibl: Ioan 3:16–18; Rhufeiniaid 10:9,10; Ioan 11:25,26

Syniadau Esther: 'Y pethau pwysicaf i gyfathrebu yw pwy yw Iesu, yr hyn a ddaeth i'w wneud, beth yw ystyr hynny i ni a sut y gallwn ni ymateb i hynny. Gallwch chi rannu'r pethau hyn â'ch byd, yn eich ffordd ei hun, cyn belled â'i fod yn unol â'r hyn a ddywed y Beibl.

'Rhywbeth y byddaf i'n ei rannu'n aml gyda phobl yw na ddaeth Iesu fel arweinydd crefyddol ar gyfer y Cristnogion, daeth fel Duw mewn cnawd dynol. Yr oedd heb bechod eto daeth yn bechodau'r byd er ein mwyn ni. Gwnaeth hyn er mwyn symud y rhwystr a greodd pechod rhwng Duw a dynolryw. Trwy farwolaeth Iesu ar y groes gorchfygodd y diafol a'i holl rymoedd. Dri diwrnod ar ôl ei farwolaeth, cododd Duw ef oddi wrth y meirw. Heddiw, mae'n fyw! Yr hyn mae'n ei olygu i ni yw os credwn iddo farw a bod Duw wedi ei godi ef oddi wrth y meirw, y gallwn ni ddechrau perthynas â Duw, byth i gael ein gwahanu oddi wrtho eto. Siaradwch gyda'ch arweinydd ieuenctid neu Dywysydd Ffydd os ydych chi angen help i ddeall hyn yn well.

'Rwy'n rhannu fy nhystiolaeth yn rheolaidd – fy stori bersonol am yr hyn y mae Iesu wedi ei wneud yn fy mywyd a phwy ydyw i mi. Mae hyn yn helpu pobl i weld rhywun y gallant uniaethu â nhw a'r gwahaniaeth gwirioneddol y mae Iesu wedi'i wneud. Mae hefyd yn eu helpu i gael gobaith ar gyfer eu taith ffydd eu hunain.'

Cwestiwn: Sut ydw i'n rhannu gyda rhywun o ffydd wahanol?

Darnau o'r Beibl: Actau 4:12; 1 Corinthiaid 8:5,6

Syniadau Esther: 'Y peth cyntaf sy'n bwysig yw cydnabod nad yw rhywun sydd o ffydd arall dim llai mewn angen am y newyddion da am Iesu na rhywun nad oes ganddo unrhyw ffydd. Mae angen Iesu arnom ni i gyd. Dywedodd Iesu, "Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd. Nid oes neb yn dod at y Tad ond trwof fi" (Ioan 14:6). Ni ddywedodd mai ef yw un o'r ffyrdd, un o'r gwirioneddau neu un o'r bywydau, ond y ffordd, y gwirionedd, y bywyd. Nid oes ffordd arall ond Iesu, Mab Dduw. Wrth gwrs, mae yna lawer o grefyddau yn y byd sydd â'u credoau a'u dealltwriaeth eu hunain, felly mae'n rhaid i chi ystyried sut rydych chi'n rhannu'r newyddion da am Iesu gyda nhw.

'Mae'n hollbwysig eich bod yn sylweddoli nad yw'n ddadl am eich Duw chi yn erbyn eu duw nhw, gan na fydd hynny o gymorth i neb. Yn lle hynny, rhannwch yn barchus beth yw'r newyddion da am Iesu a sut y mae wedi gwneud gwahaniaeth yn eich bywyd. Eglurwch beth allai hyn olygu iddyn nhw, gan roi gwybod iddyn nhw nad yw Iesu i Gristnogion yn unig ond i bawb. Byddwch yn barchus a gwrandewch wrth iddyn nhw rannu gyda chi beth maen nhw'n ei gredu. Peidiwch byth â bod yn anghwrtais neu'n sarhaus.'

Cwestiwn: Daeth fy ffrind yn Gristion. Beth sy'n digwydd nesaf?

Darnau or Beibl: Mathew 28:19,20; 2 Pedr 3:18; Colosiaid 2:6,7; Ioan 15:5

Syniadau Esther: 'Mae'n bwysig, ar ôl dod yn Gristion, ein bod yn parhau i dyfu mewn ffydd. Siaradwch â'ch arweinydd ieuenctid neu Dywysydd Ffydd am y peth rhyfeddol sydd wedi digwydd i'ch ffrind. Gofynnwch iddyn nhw am ffyrdd y gallwch chi helpu eich ffrind i barhau i archwilio'r Beibl, tyfu mewn ffydd a chael ffydd bersonol fywiog yn Iesu. Mae ymateb i Iesu yn hardd ond nid yw'n nodi diwedd taith. Mae'n ddechrau newydd hardd.

'Mae'n bwysig cydnabod yn ogystal efallai bod gennych ffrindiau sydd wedi bod yn fodlon trafod neu archwilio'r newyddion da am Iesu gyda chi ond heb fod yn teimlo'n ddigon argyhoeddedig i ddod yn Gristion. Nid yw hyn yn golygu y dylech roi'r gorau i rannu gyda nhw neu gael sgyrsiau gyda nhw. Os oes ganddynt ddiddordeb mewn archwilio mwy, daliwch ati i ddarparu cyfleoedd iddynt barhau â'u taith archwilio. Mae gen i rai ffrindiau a ddaeth yn Gristnogion cyn gynted ag y clywon nhw'r newyddion da a rhai a gymerodd llawer hirach – mae pob taith o bwys.'

Syniadau i rannu eich ffydd gyda'ch cyfoedion

- Gweddïwch – gweddi yw'r allwedd i wybod y ffordd orau i rannu eich ffydd gyda'ch cyfoedion. Duw sy'n gwybod y ffordd orau i chi i rannu â'ch byd, felly gadewch iddo eich helpu chi. Gofynnwch iddo eich arwain ac yna gwrandewch am ei arweiniad. Gweddïwch dros y bobl yr ydych yn gobeithio rhannu'r newyddion da gyda nhw, y bydd eu calonnau'n agored i'w dderbyn.
- Manteisiwch ar gyfleoedd mewn sgwrs – mae yna lawer o ffyrdd y gall cyfleoedd i rannu eich ffydd ddigwydd mewn sgyrsiau bob dydd; dyma ddwy enghraifft:
    - Sut oedd eich penwythnos? Os aethoch i eglwys, dyma gyfle da i siarad amdano. Gallech ddweud cymaint rydych chi'n mwynhau mynd a pha mor hyfryd yw'r bobl yno. Mae hyn hefyd yn arwain yn naturiol iawn at y cwestiwn, 'Wyt ti'n mynd i'r eglwys?' Gall eu hateb wedyn arwain

at drafodaeth bellach gyda nhw am yr hyn maent yn ei gredu a ble maen nhw ar eu taith ffydd.

- Egluro penderfyniadau – mae'n debygol y bydd adegau, fel Cristion, pan fydd eich ffydd yn llywio'r penderfyniadau a'r dewisiadau a wnewch. Wrth esbonio wrth ffrindiau pam rydych chi wedi gwneud penderfyniad penodol, a sut roedd eich ffydd yn rhan o hynny, mae'n gyfle i rannu eich argyhoeddiadau, pwy yw Iesu i chi a pham mae hyn mor bwysig yn eich bywyd.

- Cynlluniwch ddigwyddiad – gyda chymorth eich arweinydd ieuenctid neu Dywysydd Ffydd, cynlluniwch ddigwyddiad y gallwch chi wahodd eich cyfoedion iddo. Gallech gynnwys unrhyw weithgareddau atyniadol y credwch sy'n addas i'r rhai yr ydych yn eu gwahodd. Fodd bynnag, gofalwch eich bod yn cynllunio cyfle o fewn y gweithgareddau i rannu gyda nhw beth wnaeth Iesu a beth yw ystyr hynny iddyn nhw.
- Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi hefyd rannu eich tystiolaeth eich hun, yn manylu ar y gwahaniaeth y mae Iesu wedi ei wneud yn eich bywyd. Gallech estyn y gwahoddiad i ffrindiau a gofyn iddyn nhw wahodd eu ffrindiau hefyd. Cynlluniwch yn ofalus gynllun eich digwyddiad, pwy fydd yn cymryd cyfrifoldebau allweddol a'r hyn yr ydych yn gobeithio ei gyflawni drwy'r digwyddiad.
- Os ydych chi'n cynllunio digwyddiad cyhoeddus, gallech gynhyrchu taflen neu boster i ddweud wrth bobl amdano. Beth bynnag rydych chi'n ei benderfynu ei wneud, siaradwch â'ch arweinydd ieuenctid neu Dywysydd Ffydd am gefnogaeth i wneud hyn.
- Gwahoddwch eich ffrindiau i eglwys - mae yna lawer o bobl a hoffai fynd i eglwys ond ddim yn gwybod ble i fynd, neu'n meddwl bod angen iddynt aros i gael eu gwahodd. Byddwch yn eofn ac estynnwch y gwahoddiad! Y sefyllfa waethaf all ddigwydd yw y byddant yn dweud na ond efallai y byddant yn derbyn eich gwahoddiad a bydd hyn yn gam ymlaen at fod â'u ffydd bersonol eu hunain yn Iesu.
- Rhowch gyfle i'ch ffrindiau i ddweud ie. Siaradwch â'r arweinwyr yn eich eglwys am eich cynlluniau i wahodd pobl draw. Efallai bod ganddyn nhw ffyrdd o'ch cefnogi chi wrth wneud hyn. Peidiwch â rhoi'r gorau iddi os na fydd eich ffrindiau yn derbyn eich gwahoddiad ar y dechrau. Dywedwch wrth eich ffrindiau fod y cynnig yno bob amser a gwiriwch gyda nhw'n achlysurol i weld a fyddent hoffi ailystyried.
- Os daw eich ffrindiau i'r eglwys, peidiwch â stopio bryd hynny. Hyd yn oed os nad ydyn nhw'n Gristnogion, helpwch nhw i ddeall nad cynulliad o Gristnogion yn unig yw'r eglwys ond mae'n lle ble mae croeso i unrhyw un i ddod i archwilio eu taith ffydd eu hunain, ni waeth ar ba gam y maen nhw ar hyn o bryd.
- Byddwch yn greadigol – mae pob person yn wahanol ac ni fydd yr hyn sy'n gweithio i un o reidrwydd yn gweithio i un arall. Gydag arweiniad Duw trwy weddi, meddyliwch yn greadigol am wahanol ffyrdd y gallwch chi gyrraedd eich cyfoedion. Efallai ei fod yn rhywbeth nad yw erioed wedi'i wneud o'r blaen - ac mae hynny'n iawn. Gwnewch yr hyn rydych chi'n meddwl bydd orau i'ch cyfoedion, gan gofio cael cefnogaeth gan eich arweinydd ieuenctid neu'ch Tywysydd Ffydd.

Mae hawlfraint ar yr adnodd hwn © Scripture Union
2022 Scripture Union, Trinity House,
Opal Court, Opal Drive, Fox Milne,
Milton Keynes, MK15 0DF